



HB 14

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Bil Tai (Cymru): Cyfnod 1
Ymateb gan: Comisiynydd y Gymraeg

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

14/01/2014

Annwyl Syr / Madam

Ymgynghoriad ar y Bil Tai (Cymru)

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad ar y Bil Tai (Cymru).

Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg. Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Caiff y Comisiynydd ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith, ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â safonau.

Un o flaenoriaethau'r Comisiynydd yw craffu ar ddatblygiadau polisi o ran y Gymraeg. Felly, prif rôl y Comisiynydd yw darparu sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru y gallai'r diwygiadau arfaethedig effeithio arnyn nhw. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



rheoleiddio, a phe bai'r Comisiynydd yn dymuno adolygu'n ffurfiol berfformiad y sefydliad yn unol â darpariaethau'r Mesur.

Sylwadau cyffredinol

Prif fwriad y Bil Tai yn gyffredinol yw “helpu i sicrhau y bydd unigolion yn gallu cael gafael ar gartref fforddiadwy, boddhaol a bod unigolion sydd mewn perygl o ddiartrefedd yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt”. Yn sicr mae perthynas agos rhwng materion polisi economaidd megis gwaith a thai â chynnaladwyedd cymunedau a'r Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru, yn *iaith byw: iaith fyw*, sef eu strategaeth ar y Gymraeg, hefyd wedi cydnabod bod cysylltiad agos rhwng safle'r Gymraeg ac argaeledd tai fforddiadwy fel y gall pobl aros yn eu cymunedau. Byddai gosod y Gymraeg ar wyneb y Bil hwn yn fodd i'r Llywodraeth ddangos ei bod am wella profiad y dinesydd ac ei bod o ddifrif ynghylch gweld y Gymraeg yn ffynnu.

Dylid cofio y bydd unrhyw ofynion ychwanegol ar awdurdodau lleol a godir yn sgil y Bil hwn yn ddarostyngedig i'r cynlluniau iaith unigol ac i'r safonau maes o law.

Sylwadau penodol

○ Cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol

Bydd y ddeddfwriaeth yn gosod dyletswydd ar landlordiaid preifat ac asiantau sy'n rheoli eiddo rhent preifat i gofrestru a chael eu trwyddedu gan eu hawdurdod lleol. Dylid rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg mewn perthynas â'r cofrestradau a'r trwyddedau hyn. At hynny, yn rhan o'r Cynllun newydd, bydd darpariaeth hyfforddi a datblygu ar gyfer landlordiaid preifat fel eu bod yn gallu cyrraedd y safonau sy'n ofynnol er mwyn cael trwydded a dylai'r hyfforddiant hwn fod ar gael yn Gymraeg lle bo'n briodol.

○ Digartrefedd

Rhoddir pwyslais cynyddol yn y Bil ar ymestyn y cymorth sydd ar gael i unigolion sydd mewn perygl o ddiartrefedd. Fe sonnir hefyd am brawf bwriadoldeb y bydd awdurdodau lleol yn ymgymryd ag o er mwyn pennu os yw unigolyn yn ddiartref yn fwriadol neu'n anfwriadol. Yn unol â hyn, dylai unigolion dderbyn y cymorth hwn a chael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg os dymument, yn enwedig o ystyried y sefyllfa fregus y byddent yn debygol o fod ynddi. Mae'n debyg y bydd derbyn y gwasanaeth hwn yn Gymraeg yn fwy o angen nac o ddewis i rai yn y fath sefyllfa.

○ Safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr

Mae'r Bil yn cynnig gosod dyletswydd statudol newydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd lle y nodwyd bod eu hangen. Cyfeirir at yr ystyriaeth hon hefyd yn yr Asesiad Effaith Reoleiddiol yn yr adran 'Effaith ar yr iaith Gymraeg'. Cynigir ynddo y gall safleoedd Sipsiwn a Theithwyr olygu y bydd mwy o blant yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg ac yn dysgu'r iaith a fydd o bosibl yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Nid yw'n eglur ar ba dystiolaeth y seilir y cynnig hwn na pha mor ddibynadwy ydyw. Bydd rhaid ystyried pob safle posibl yn unigol yn ddibynnol ar y gymuned benodol a fyddai'n cael ei heffeithio.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

○ **Treth Cyngor ar gartrefi gwag**

Mae'r Bil yn caniatáu i awdurdodau lleol godi cyfradd uwch o dreth cyngor ar eiddo sy'n wag am 12 mis neu fwy. Er mai pŵer disgresiwn fydd hwn, y bwriad yw y bydd yn helpu i wneud y defnydd gorau posibl o gartrefi sydd eisoes yn bodoli a bydd, unwaith eto, yn helpu i gadw pobl yn eu cymunedau ac yn helpu cynaladwyedd y Gymraeg. Bydd angen i'r Llywodraeth ystyried goblygiadau a sgil effeithiau y datblygiad hwn ar y niferoedd o dai newydd fydd eu hangen ac sy'n cael eu pennu drwy gynlluniau datblygu lleol.

Unwaith eto diolch i chi am y cyfle i ddarparu sylwadau ar eich ymgynghoriad. Gofynnwn i chi roi ystyriaeth lawn i'r sylwadau a nodir uchod.

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg